# RICHARD LEWIS AR DRYWYDD DIRGELWCH PULPUD COFFA JOHN PENRY

YN rhifynnau Hydref a Tachwedd 1855 o *Y Diwygiwr* ceir dau lythyr yn nodi fod yna ymgyrch ar droed i sicrhau 'pulpud coffadwriaethol i John Penry' yng nghapel yr Annibynwyr yn Southwark, Llundain. Dyma ran o lythyr y Parch. E. Jacob, Abertawe, Ysgrifennydd Undeb Gorllewin Morgannwg ar y pryd.

> *'Y mae yr eglwys gynulleidfaol henaf yn Llundain yng nghylch adeiladu addoldy newydd. Yr eglwys a sefydlwyd gan yr hen Buritaniaid — yr eglwys a gafodd gymaint o nodded y nefoedd wrth amddiffyn y gwirionedd yn nghanol tymestloedd erlidigaeth, a'r eglwys y bu y Cymro selog, Penry, yn gweinidogaethu iddi.*
>
> *Fe awgrymodd rhai o'r dynion da yn Llundain, ac yn enwedig ein hoff gydwladwr y Parch. H. Richard, yr hoffai y Cymry anrhegu yr eglwys a'r 'pulpit' a gosod ysgrifen briodol arno er cof am yr enwog Penry, a serch yr hen Gymry at ryddid . . .'*

Dyma ran o lythyr Henry Richard o rifyn Tachwedd o *Y Diwygiwr*. Mae'n werth nodi mai Henry Richard 1812-88 y gwleidydd a'r heddychwr o Dregaron yw'r Henry Richard hwn. Bu'n weinidog ar gapel yr Annibynwyr yn Old Kent Road, Llundain, o 1835 hyd 1850:

> *Mr Golygydd, — Mae'n debyg eich bod chwi eisoes wedi galw sylw eich darllenwyr at y cais ag y mae fy nghyfaill y Parch. John Waddington, o Lundain, wedi anfon at y Cymry, mewn cysylltiad â'r capel newydd y mae efe a'i eglwys ar adeiladu yn Southwark . . .*
>
> *Mae'r eglwys sydd yn awr yn addoli yn Union Chapel, Southwark, yr henaf o'r holl eglwysi Annibynol yn y brifddinas. Sefydlwyd hi oddeutu dau cant a thri ugain o flyneddau yn ol gan rai o'r hen Buritaniaid, Henry Borrowe, John Greenwood, ac eraill. Yn mysg y ffyddloniaid hyn, un o'r rhai mwyaf dewr a dysglaer oedd ein cyd-wladwr enwog, John Penry. Y mae Mr Waddington, fel y mae yn hysbys i chwi, wedi ysgrifennu hanes y gŵr duwiol hwn . . .*
>
> *Ond i ddychwelyd at y Capel yn Southwark. Amcan Mr Waddington a'i gyfeillion, tra yn paratoi lle cyfleus iddynt hwy fel eglwysi i ymgynull, yw gwneuthur yr adeilad ar yr un pryd, yn fath o gofadail o'r dynion dewrion, y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt, a fuont foddion i sylfaenu yr achos, er ys cynifer o flyneddau yn ol. Ac ar y seiliau hyn, y maent yn barnu y gallant ofyn cymhorth eglwysi eraill, nid yn unig yn Lloegr, ond yng Nghymru ac America. Yn Lloegr, am mai eu eglwys hwy oedd y fam-eglwys i'r achos Annibynol. Yn Nghymru, am mai un o'i mheibion hi oedd un o'r rhai mwyaf enwog yn sefydliad yr achos, ac hefyd un o'r rhai mwyaf llafurus dros les ysbydol ein cyd-genedl. Yn America, am mai o'r eglwys yn Southwark, yr aeth allan rai o'r blaenaf o'r hen bererinion a blanasant achos Duw ar graig Plymouth yn Lloegr Newydd . . . Yr hyn a ofynir gan yr eglwysi Annibynol yn Nghymru, yw cyfranu digon ar gyfer cael Pwlpud hardd yn y capel newydd, fel math o gof-adail o'n cyd-wladwr enwog, hanes pa un sydd wedi ei gysylltu mor agos ac anwyl â hanes yr eglwys sydd i artrefu yno . . .'*

Yn y *Congregational Year Book* am 1856 ceir adroddiad fod John Waddington, gweinidog capel yr Annibynwyr yn Southwark ar y pryd, wedi cyflwyno araith ar 'The Church of the Pilgrim Fathers in Southwark' ar ddydd Mawrth, 23 Hydref 1855, yn ystod cyfarfod o'r Undeb Cynulleidfaol. Mae testun yr araith wedi ei gyhoeddi yn y gyfrol ac fe welir yno gyfeiriadau at y gobaith y byddai Annibynwyr o bob cwr o'r byd yn medru cynorthwyo gyda chostau'r capel newydd. Fe fyddai John Waddington yn gwneud swyddog marchnata da iawn heddiw!

Mae'n amlwg o ddarllen hanes achos yr Annibynwyr yn Southwark yng nghyfnod John Waddington, *Surrey Congregational History,* a gyhoeddwyd yn 1866, fod ymgyrch y capel newydd wedi bod yn un arbennig o anodd. Er iddynt adael yr hen gapel yn Union Street ar 28 Hydref 1855 ni lwyddwyd i agor y capel newydd tan 25 Mai 1864. Fe weithiodd John Waddington yn arbennig o galed i wireddu ei freuddwyd o godi capel coffa i'r hen Biwritaniaid. Fe gostiodd y capel tua phum mil o bunnoedd ac yr oedd yno neuadd i'w defnyddio fel ysgol neu ddarlithfa neu fan cyfarfod yn ogystal â chapel a allai ddal 900 o bobl. Nid oes sôn am bwlpud coffa i John Penry yn y disgrifiad o gapel Southwark yn *Surrey Congregational History!*

Fe gaiff awdur ysgrif a ymddangosodd yn rhifyn Gorffennaf 1864 o *Yr Annibynwr* barhau'r stori:

> *'. . . Ar ôl hir struggle ac oediad, y mae'r addoldy hardd o'r diwedd wedi ei agor, ac wedi bron ei gwblhau. Y prif beth sydd ar ol yn awr ydyw*
>
> Y PWLPUD
>
> *Ymddengys i apeliad gael ei wneud, ar gychwyniad y symudiad, amryw flynyddoedd yn ol, at haelfrydedd a theimlad cenedlgarol y Cymry ar fod iddynt hwy godi'r pwlpud, ac i hwnw fod yn*
>
> GOFFADWRIAETHOL
> AM PENRY.
>
> *Ac mewn atebiad i'r cyfryw apeliad, y mae tua deugain punt wedi eu cyfranu, ac yn bresenol yn nwylaw'r trysorydd. Bwriedid i'r pwlpud gael ei wneyd o riddin derw goreu sir Frycheiniog — y sir gafodd yr anrhydedd o fagu y merthyr ieuanc John Penry, a chostia y coed, a'r addurniadau, a'r cerfiadau y bwriedir roddi arno yn rhywle oddeutu pedwar ugain punt.*
>
> *Dymunwyd, gan hyny, ar nifer o'r cyfeillion Cymreig yn Llundain i ymffurfio yn bwyllgor i gael hyn o beth oddiamgylch, ac enwyd y Parchn. H. Richard, y Peace Society, New Broad Street, i fod yn Drysorydd; a W. Lloyd, Aldersgate Street, yn Ysgrifenydd. Ac erfynir yn daer am i'r cyfeillion drwy Dde a Gogledd, gymeryd hyn o fater dan eu hystyriaeth, a tharo ati yn ddioed i anfon eu rhodd i'r Trysorydd, fel y caffom hyn o swm bychan o haner can punt i law, a hyny yn fuan, ac heb ryw lawer iawn o guro'r twmpathau.'*

Ar y tu fewn i glawr blaen rhifyn Awst 1864 o *Yr Annibynwr* ceir y llun o bulpud coffa John Penry a atgynhyrchir yn y rhifyn hwn o *Y Casglwr*. Fe geir apêl bellach am ragor o arian i'r gronfa yno hefyd. Yn ddiddorol iawn mae'r bloc pren gwreiddiol a ddefnyddiwyd i argraffu'r llun yn *Yr Annibynwr* yn ôl yn 1864 erbyn heddiw yn ddiogel yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae'n ymddangos iddo gael ei gadw yn y swyddfa argraffu yn Llanfyllin oedd yn argraffu *Yr Annibynwr* ar y pryd a'i fod wedi dod i feddiant a sylw Mr Bryan, perchennog yr argraffdy yn ddiweddarach. Cymaint oedd diddordeb Mr Bryan yn hanes y pulpud fel yr argraffodd daflen arbennig ag arni lun o'r pulpud i'w dosbarthu i gyfeillion er mwyn holi am hynt a helynt y pulpud. Yn anffodus bu Mr Bryan farw cyn cael cyfle i ddosbarthu'r taflenni. Yn 1954 cyflwynodd ei chwaer, Miss C. H. Bryan, Corner House, Llanfyllin, y bloc pren ac ychydig gopïau o'r daflen i'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae'n werth nodi fod y bloc pren yn enghraifft arbennig o dda o'r grefft o wneud blociau.

Mae'n ymddangos mai dyma'r unig lun sydd ar gael o'r pulpud coffa a'r hyn sydd wedi creu diddordeb mawr yw'r ffaith nad yw'n glir iawn beth yn union yw statws y llun a gyhoeddwyd ar glawr blaen rhifyn Awst 1864 o *Yr Annibynwr*. Ar un llaw mae'n

An exhortation vnto the gouer-
nours, and people of hir Maiesties
*countrie of Wales, to labour earnestly,*
to haue the preaching of
*the Gospell planted a-*
mong them.

There is in the ende something
*that was not in the former*
impression.

PSAL. 137. 5,6.

If I shall forget thee, O Ierusalem, let my right hande forget her selfe, if I do not remember, thee, let my toong cleaue vnto the roofe of my mouth: yea, if I prefer not Ierusalem vnto my cheefe ioye.

2. COR. 1. 13.

For wee write no other thing vnto you, than that you reade, or that you acknowledge, and I trust you shal acknowledge vnto the ende.

1 COR. 5. 13,14.

For, whether we be out of our wit, we are it vnto God, or whether wee be in our right mind, wee are it vnto you For, that loue of Christ doth constraine vs.

1588.

*Tudalen deitl argraffiad o'r pamffledyn hwn o waith John Penry a argraffwyd ar un o weisg dirgel y Piwritaniaid nas adwaenir ond trwy'r copi hwn sydd ym meddiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ynddo, ar dudalen 101, mae'n cyfeirio at ddarganfod gwasg ddirgel yn perthyn i'r Pabyddion mewn ogof yng Ngogledd Cymru; cyfeiriad at yr ogof lle'r argraffwyd yn ôl pob tebyg* Y Drych Cristianogawl *yn 1586 neu 7.*

*Llun:* Llyfrgell Genedlaethol Cymru.